***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2004 No. 870

# Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Cymru) 2004

**Treuliau tybiedig y refferendwm**

**7.**—(1) Bydd y rheoliad hwn yn gymwys lle —

(a) darperir yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau at ddefnydd neu er budd unrhyw un naill ai —

(i) yn ddi-dâl; neu

(ii) ar ostyngiad o fwy na 10 y cant o'r gyfradd fasnachol am ddefnyddio'r eiddo neu am ddarparu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau; a

(b) gwneir defnydd ar yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau gan yr unigolyn hwnnw neu ar ei ran dan y fath amgylchiadau megis pe câi treuliau eu hachosi (neu os cânt eu hachosi) mewn gwirionedd gan yr unigolyn hwnnw neu ar ei ran parthed y defnydd hwnnw, byddent (neu maent) yn dreuliau ar gyfer y refferendwm a achoswyd gan yr unigolyn hwnnw neu'n rhai a achoswyd ar ei ran.

(2) Yn amodol ar baragraff (5), lle bo'r rheoliad hwn yn gymwys ymdrinnir â swm o dreuliau refferendwm a bennir yn unol â pharagraff (3), onid yw'n ddim mwy na £200, at ddibenion rheoliad 6 megis pe achoswyd ef gan yr unigolyn hwnnw yn ystod y cyfnod y gwneir defnydd ar yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau fel y nodir ym mharagraff (1)(b).

(3) Mae'r swm a grybwyllir ym mharagraff (2) yn gyfran naill ai o —

(a) y gyfradd fasnachol am ddefnyddio'r eiddo neu am ddarparu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau (lle darperir yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau'n ddi-dâl), neu

(b) y gwahaniaeth rhwng y gyfradd fasnachol a swm y treuliau gwirioneddol a achoswyd gan yr unigolyn hwnnw neu ar ei ran parthed y defnydd ar yr eiddo neu'r gwasanaethau neu'r cyfleusterau a ddarparwyd (lle darperir yr eiddo, y gwasanaethau neu'r eiddo ar ostyngiad),

fel bo'n rhesymol ei chodi o ran y defnydd ar yr eiddo, y gwasanaethau neu'r cyfleusterau fel y nodir ym mharagraff (1)(b).

(4) Os bydd cyflogwr gweithiwr yn cynnig gwasanaethau'r gweithiwr hwnnw at ddefnydd neu er budd rhywun, bydd y swm a ystyrir yn gyfradd fasnachol am ddarparu'r gwasanaeth hwnnw'n gyfwerth â swm y taliad neu'r lwfansau a fyddai'n daladwy i'r gweithiwr gan y cyflogwr am y cyfnod y darperir gwasanaethau'r gweithiwr (ond ni fydd yn cynnwys unrhyw swm o ran cyfraniadau na thaliadau eraill y mae'r cyflogwr yn atebol amdanynt parthed y gweithiwr).

(5) Ni ystyrir bod unrhyw dreuliau refferendwm wedi eu hachosi yn rhinwedd paragraff (1) parthed unrhyw wasanaethau a ddarperir gan unigolion yn wirfoddol yn eu hamser eu hunain yn ddi-dâl.